**Pwyllgor Diwylliant - CC-5-02(p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9.00am -12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol |

**Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002**

**Papur gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg.**

**Diben**

1. Ceisio barn y pwyllgor ar gynnig y Gweinidog i gynnwys hyd at 17 sefydliad yn Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad o dan Adran 6(1)(o) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Disgwylir y ceir dadl ar y ddeddfwriaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mai 2002.

**Cefndir**

2. Derbyniodd Mesur yr Iaith Gymraeg Gydsyniad Brenhinol ar 21 Hydref 1993 a daeth y prif ddarpariaethau i rym ar 21 Rhagfyr 1993.

3. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn gweithredu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

4. Un o brif ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw y dylai cyrff cyhoeddus baratoi Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi sut y byddant yn darparu gwasanaeth Cymraeg i'r rhai hynny o'r cyhoedd sy'n dewis cyflawni eu busnes gyda hwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Mae Adran 6 y Ddeddf (copi ynghlwm) yn rhestru'r cyrff a chategorïau'r cyrff sy'n agored i'w hysbysu'n ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg y dylent baratoi cynlluniau. Mae'r cyrff a restrir ar wyneb-ddalen y Ddeddf yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau tân a heddlu, awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd, a cholegau addysg bellach ac uwch. Mae Adran 6(1)(o) yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddynodi unrhyw gyrff **ychwanegol** yr ystyria eu bod yn gweithredu swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru; effaith dynodiadau o'r fath yw ei bod yn gyfrifoldeb ar y cyrff hynny i baratoi cynllun unwaith y maent yn derbyn hysbysiad gan y Bwrdd.

6. Ceir rhaglen dreigl barhaus o ymchwilio ac ymgynghori â chyrff cyhoeddus a allai fod yn agored i'w dynodi o dan Adran 6(1)(o).

7. Gwnaed tri gorchymyn o dan Adran 6(1)(o) o'r blaen ac roeddynt yn cynnwys llawer o'r cyrff cyhoeddus mwyaf blaenllaw yng Nghymru (copïau o'r gorchmynion ynghlwm yn Atodiad 1).

8. Cynlluniau Iaith Gymraeg yw'r dull a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gyfer gweithredu dwyieithrwydd ymarferol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn helpu i sicrhau bod dinasyddion yn cael dewis pa iaith i'w defnyddio. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn ymwneud â darparu "gwasanaethau i'r cyhoedd".

9. Bydd Cynlluniau yn:

- Gweithredu egwyddor Deddf 1993 y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg *'ar y sail eu bod yn gyfartal'*. Rhaid i gynlluniau weithredu'r egwyddor honno *'cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol';*
- Dangos i siaradwyr Cymraeg amrediad y gwasanaethau i'w darparu yn Gymraeg, a rhoi'r wybodaeth y mae ar siaradwyr Cymraeg ei hangen i allu defnyddio'r gwasanaethau hynny;
- Ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Adlewyrchu safbwyntiau'r rhai a fydd yn defnyddio'r gwasanaethau (mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ymgynghori â hwy);
- Cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir ac anghenion siaradwyr Cymraeg;
- Cael eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Yn cael eu gorfodi ar gorff cyhoeddus gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru lle bo'r corff cyhoeddus un ai wedi methu â chyflwyno cynllun i'r Bwrdd, neu lle bo'r corff cyhoeddus a'r Bwrdd wedi methu â chytuno ar delerau cynllun a bod y Bwrdd yn gwrthod cymeradwyo'r cynllun a gyflwynwyd.

10. Mae **cyrff y Goron** (fel y Cynulliad, Adrannau Whitehall a'u Hasiantaethau) yn paratoi eu cynlluniau o dan Adran 21 Deddf 1993 ac felly nid yw'n angenrheidiol eu henwi mewn is-ddeddfwriaeth.

11. Yn ystod 2001/02, ymgynghorwyd â 18 o gyrff cyhoeddus yr ystyriwyd eu bod yn addas i'w cynnwys yn y gorchymyn drafft nesaf. Yn achos cyrff a noddir gan Adrannau'r Llywodraeth, cafodd yr adrannau sy'n eu noddi eu cynnwys yn y broses ymgynghori.

Un corff yn unig sydd wedi gwrthwynebu cael ei gynnwys; bydd angen llawer mwy o ymgynghori a thrafod ar hyn. Nid wyf am ohirio rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith oherwydd un corff felly nid wyf yn bwriadu ei gynnwys yn y gorchymyn presennol.

12. Rwy’n cynnig cynnwys y cyrff a ganlyn yn y gorchymyn nesaf. Bydd yr aelodau yn gyfarwydd â’r rhan fwyaf o’r cyrff ond mae’r rhestr yn cynnwys esboniad byr o swyddogaethau bob un.

**Cyngor Gofal Cymru**

Corff ar lefel Cymru sy’n gyfrifol am gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol, gosod safonau mewn gwaith cymdeithasol a rheoleiddio addysg a hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol.

**Comisiynydd Plant Cymru**

Corff ar lefel Cymru a sefydlwyd er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu, hynny drwy fonitro a goruchwylio'r modd y gweithredir y drefn gwyno a datgelu camarfer a'r trefniadau ar gyfer eiriolaeth. Gall ymchwilio i achosion penodol a helpu plant i wneud cwynion.

**Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd**

Corff ar lefel y DU sy’n gyfrifol am ddiogelu buddiannau plant sy’n dod yn destun achos llys teuluoedd. Mae'n cynghori ar drefniadau ar gyfer rhoi plant dan ofal, ceisiadau am hawl preswylio, hawliau cyswllt a mabwysiadu ac anghydfod ynghylch triniaeth feddygol.

**Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu**

Mae’r corff hwn, sy’n cael ei noddi gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yn gyfrifol am gydlynu hyfforddiant ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae’n dal cronfeydd ar ran y diwydiant, yn dyrannu grantiau ar gyfer hyfforddiant ac yn rheoli rhaglenni hyfforddi.

**Cyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post (Golwg ar Bost Cymru)**

Corff ar lefel y DU gyda phwyllgor i Gymru. Fe’i sefydlwyd er mwyn cynrychioli buddiannau cwsmeriaid a sicrhau eu bod yn derbyn gwell gwasanaeth gan eu gwasanaethau post.

**Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianneg**

Mae’r corff hwn, sy’n cael ei noddi gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yn gyfrifol am y sector hon. Mae’n dal cronfeydd ar ran y diwydiant, yn dyrannu grantiau ar gyfer hyfforddiant ac yn rheoli rhaglenni hyfforddi.

**Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol**

Corff ar lefel y DU a sefydlwyd gan llywodraeth y DU i reoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn y DU.

**Cyngor Defnyddwyr Nwy a Thrydan (Golwg ar Ynni)**

Corff ar lefel y DU sy'n ymchwilio i gwynion yn erbyn cwmnïau cyfleustodau, yn eu datrys ac yn gweithredu fel man cyswllt canolog i ddefnyddwyr. Mae'n cynnig cyngor i ddefnyddwyr ac yn chwarae ei ran mewn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd cwynion drwy ddwyn pwysau ar gwmnïau i godi safonau a gostwng biliau.

**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol**

Corff ar lefel y DU sy'n rheoleiddio'r proffesiwn deintyddol ac yn hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad proffesiynol ac addysg. Gall ystyried cwynion gan y cyhoedd.

**Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**

Corff ar lefel y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio meddygon.

**Cyngor y Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**

Corff ar lefel y DU a sefydlir ym mis Ebrill 2002. Bydd y corff hwn yn rheoleiddio gwaith Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, gan ddisodli Cyngor y Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth, a'i 12 Bwrdd. Bydd yn atebol i'r cyhoedd ac i'r proffesiynau mewn modd rhagweithiol.

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

Corff ar lefel y DU a sefydlir ym mis Ebrill 2002. Bydd y corff yn cofrestru ac yn rheoleiddio'r proffesiynau Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**Pwyllgor y Teithwyr Rheilffyrdd - Cymru**

Mae'r corff hwn yn gyfrifol am warchod buddiannau teithwyr rheilffordd. Mae'n codi materion gyda'r cwmnïau rheilffyrdd a llywodraeth y DU ac yn awgrymu gwelliannau.

**Cyngor y Teithwyr Rheilffyrdd**

Corff ar lefel y DU sy’n cydlynu gwaith y Pwyllgorau Teithwyr Rheilffyrdd.

**Yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol**

Swyddogaeth ganolog y corff hwn yw hyrwyddo a datblygu’r rhwydwaith rheilffyrdd a hyrwyddo integreiddio. Mae hefyd yn gyfrifol am warchod buddiannau’r cwsmer.

**Yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector**

Corff newydd ar lefel y DU, a noddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Bydd yn ariannu ac yn cefnogi’r rhwydwaith newydd o Gynghorau Sgiliau Sector ledled y DU.

**Tribiwnlysoedd ar Brisio a’r Tâl Cymunedol yng Nghymru**

Ceir pedwar Tribiwnlys ar brisio a’r tâl cymunedol yng Nghymru ac maent yn clywed apeliadau ynghylch prisio a’r tâl cymunedol.

13. Mae'r cyrff canlynol yn disodli cyrff eraill a gafodd eu henwi mewn is-ddeddfwriaeth flaenorol.

- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post
- Cyngor Defnyddwyr Nwy a Thrydan
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Pwyllgor y Teithwyr Rheilffyrdd - Cymru

Mae’r gweddill yn ddynodiadau newydd at bwrpas Deddf yr Iaith Gymraeg.

14. Fy mwriad yw y bydd y cylch nesaf o ymgynghori â rhagor o gyrff cyhoeddus yn dechrau gynted ag y bo modd.

15. Os bydd yr aelodau yn cymeradwyo’r rhestr o gyrff cyhoeddus, caiff offeryn statudol ei ddrafftio a gofynnir i’r Trefnydd ddod â’r ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad iddo ei ystyried.